**COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 8fed o FAI 2017 YN NEUADD LESIANT PONTIETS AM 7.00**

**Presennol:** Alan Lewis (yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans,Heddwyn Jones, Linda Williams, Geraint Rosser ,Margaret Rees,Geoff Hewitt,Richard Thomas,Tracey James,Meic Bowen, Aled Williams a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

**Materion Personol**

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd yn enwedig y Cynghorydd Tracey James a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf fel Cynghorydd ar Ward Carwe.

**1708 Cofnodion**
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf ar 09/05/16 fel rhai cywir.

**1709 Rota'r Cadeiryddion**
Wedi trafodaeth ar aelodaeth y cyngor penderfynwyd ar y fformiwla ganlynol wrth ethol Cadeiryddion y Cyngor am y blynyddoedd nesaf :-
2017 – Ward Carwe
2018 – Ward Pontiets
2019 - Ward Llangyndeyrn
2020 – Ward Pontiets
2021 – Ward Carwe
2022 – Ward Pontiets
2023 – Ward Llangyndeyrn
2024 – Ward Pontiets

**1710 CADEIRYDD 2017-2018**
Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Ian Evans yn Gadeirydd.

**1711 IS-GADEIRYDD 2017-2018**
Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Geoff Hewitt yn Is-gadeirydd

**1712 LWFANS Y CADEIRYDD**
Penderfynwyd bod y Cadeirydd i dderbyn Lwfans o £300 tuag at dreuliau'r swydd.

**1713 Diolchiadau**
Cyfeiriodd y Cadeirydd presennol y Cynghorydd Alan Lewis ei fod wedi cael blwyddyn brysur a diolchodd i'r Is-gadeirydd a'r Cyngor yn gyffredinol am eu cydweithrediad parod. Diolchodd i'r Cyn-gynghorwyr Carrie Rees, Wendy Evans, Ellis Jenkins ac Emyr John am eu cyfraniad gwerthfawr hwythau i'r Cyngor a'r Gymuned yn gyffredinol, rhai ohonynt am nifer helaeth o flynyddoedd. Diolchodd hefyd i'r Clerc,Glyndwr Prideaux am ei wasanaeth arbennig a chydwybodol yn ystod y flwyddyn.

Diolchwyd iddo ef fel Cadeirydd am ei arweiniad ac am lywio'r amryw Gyfarfodydd mor drefnus yn ystod flwyddyn ei lywyddiaeth.

**1714 Ethol Aelodau'r Is-bwyllgorau**

**Cyllid:**
Cadeirydd y Cyng. Ian Evans,Cyng. Geraint Rosser,Cyng Richard Thomas,Cyng. Alan Lewis,Cyng. Tyssul Evans,Cyng. Heddwyn Jones

**Cynllunio a Goleuadau:**

Cadeirydd y Cyng. Ian Evans,Cyng.Tracey James,Cyng. Heddwyn Jones,Cyng. Geoff Hewitt,Cyng. Geraint Rosser,Cyng. Margaret Rees,Cyng.Aled Williams,Cyng.Meic Bowen, Cyng Alan Lewis

**Iaith:**
Cadeirydd y Cyng. Ian Evans,Cyng Heddwyn Jones, Cyng. Linda Wiliiams,Cyng. Margaret Rees, Cyng. Geraint Rosser.

**Pwyllgor Cyswllt Cwar Torcoed:**
Cyng. Margaret Rees,Cyng. Richard Thomas,Cyng. Alan Lewis

**Pwyllgor y Wefan:**
Cyng. Linda Williams,Cyng.Alan Lewis

**Pwyllgor y Frigâd Dan (Pontiets)**
Cyng. Geoff Hewitt,Cyng,Geraint Rosser,Cyng.Alan Lewis,Cyng.Ian Evans

**1715 Trosglwyddwyd y gadair i'r Cadeirydd newydd**

Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben am 19.35 y.n.

**Llofnodwyd…………………………………………… CADEIRYDD**

**Dyddiad…………………………………………………**